RHYBUDD PWYSIG ynghylch Cynllun Setliad yr UE

Mae rheolau'r llywodraeth yn golygu bod yn rhaid i ddinasyddion yr UE ac EFTA sy'n byw yn y DU wneud cais am statws sefydlog neu cyn-setliad erbyn 30 Mehefin.

Mae pryder efallai na fydd rhai pobl y bydd y newid hwn yn effeithio arnynt yn ymwybodol bod angen iddynt wneud cais. Yn benodol, mae gwybodaeth ar wefan berthnasol y llywodraeth (**https://www.gov.uk/eusettledstatus**) yn nodi bod angen i'r bobl ganlynol wneud cais:

- **Deiliaid cardiau preswylio parhaol y DU a roddwyd yn flaenorol.**
  - Ni fydd y rhain yn ddilys mwyach ar ôl 30 Mehefin 2021 ac mae angen i'r bobl sy'n eu dal wneud cais.
- **Aelodau dibynnol o'r teulu.**
  - Rhaid i bob aelod dibynnol o'r teulu, gan gynnwys plant, gwblhau cais EUSS unigol

Mae gwneud cais i'r cynllun yn rhad ac am ddim ac mae'n bwysig bod pob dinesydd o'r UE ac EFTA a allai gael ei effeithio yn gwneud cais cyn y dyddiad cau.

Os ydych chi'n adnabod unrhyw un a allai gael eu heffeithio, gwiriwch eu bod wedi gwneud cais. Mae hyn yn arbennig o bwysig i bobl mewn grwpiau bregus (e.e. pobl oedrannus, pobl heb fynediad i'r rhyngrwyd, plant mewn gofal).

Os credwch y gallai'r newid hwn effeithio arnoch, gallwch gael rhagor o wybodaeth a chyngor am ddim gan y sefydliadau a restrir ar wefan EUSSWales yn**:**

- EUSSWales: **http://www.eusswales.com/**

Mae'r daflen hon wedi'i pharatoi a'i dosbarthu gan Gymru dros Ewrop
Am wybodaeth bellach cysylltwch ag Edmund Sides yn: **swansea@walesforeurope.org**